

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

#### Cynghorau Ieuenctid Youth Councils

**Q12 Gwenda Thomas:** Will the First Minister make a statement on youth councils in Wales? OAQ1215(FM)

**C12 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynghorau ieuenctid yng Nghymru? OAQ1215(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** We expect all local authorities and partner agencies to put in place arrangements for young people to have their say and be listened to on issues that affect their lives, including compliance with Article 12 of the UN Convention on the Rights of the Child.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Disgwylwn i bob awdurdod lleol a'n partneriaid eraill wneud trefniadau er mwyn i bobl ifanc gael lleisio barn a chael gwrandawriad ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau, gan gynnwys cydymffurfio ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

#### Cronfa Cydgyfeirio Convergence Fund

**Q13 Huw Lewis:** What discussions has the First Minister had regarding a framework programme for the convergence fund in Wales? OAQ1219(FM)

**C13 Huw Lewis:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal ynglŷn â rhaglen fframwaith ar gyfer y gronfa cydgyfeirio yng Nghymru? OAQ1219(FM)

**The First Minister:** The Welsh European Funding Office is continuing the work already well under way with our partners in the private sector, local government, higher and further education and voluntary sectors on the shape of future structural funds programmes.

**Y Prif Weinidog:** Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn parhau â'r gwaith sydd eisoes ar droed gyda'n partneriaid yn y sector preifat, llywodraeth leol, y sectorau addysg uwch ac addysg bellach a'r sector gwirfoddol, o ran rhaglenni'r cronfeydd strwythurol yn y dyfodol.

#### Effeithiau Newid Hinsawdd Impact of Climate Change

**Q14 Glyn Davies:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy to limit the impact of climate change? OAQ1226(FM)

**C14 Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfyngu ar effeithiau newid hinsawdd? OAQ1226(FM)

**The First Minister:** The Cabinet has

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Cabinet wedi pennu

identified addressing climate change as a key priority. It is a central theme of the environment strategy for Wales, to be published in April. We will also develop a climate change adaptation plan for Wales and address policies and programmes that contribute significantly to emissions.

mynd i'r afael â newid hinsawdd fel blaenoriaeth allweddol. Mae'n thema ganolog i'r strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru, sydd i'w chyhoeddi ym mis Ebrill. Byddwn hefyd yn datblygu cynllun addasu newid hinsawdd ar gyfer Cymru ac yn rhoi sylw i bolisiâu a rhaglenni sy'n cyfrannu'n sylweddol at ollyngiadau.

### **Amgylchiadau Tlodi Circumstances of Poverty**

**Q15 Denise Idris Jones:** What action has the Welsh Assembly Government taken to tackle circumstances of poverty across Wales? OAQ1218(FM)

**C15 Denise Idris Jones:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i fynd i'r afael ag amgylchiadau tlodi ar draws Cymru? OAQ1218(FM)

**The First Minister:** Our social justice annual report 2005 sets out how we are improving access to jobs, skills, training, healthcare, housing, the safety of people in our communities and the regeneration of our communities in all parts of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n hadroddiad blynyddol ar gyfiawnder cymdeithasol ar gyfer 2005 yn nodi sut yr ydym yn gwella cyfleoedd i gael swyddi, sgiliau, hyfforddiant, gofal iechyd, tai a diogelwch pobl yn ein cymunedau, ac yn adfywio cymunedau ym mhob rhan o Gymru.